WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ardystio grantiau a ffurflenni 2009-10

## Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad: Gorffennaf 2011

Awdur: PricewaterhouseCoopers LLP

# Statws yr adroddiad


**Swyddfa Archwilio Cymru**

24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk


## Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Penawdau | 5 |
| Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio | 6 |
| Argymhellion | 16 |
| Ffioedd | 21 |

# Crynodeb

1. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan gorff llywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn trefnu i ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant o hyn ymlaen).

2. Nod ein gwaith oedd ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:

   'A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau y cynhyrchir hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, ac amserol a ddogfennwyd yn gywir?'

3. Rydym wedi cwblhau'r archwiliad o hawliadau grant amrywiol a down i'r casgliad fod lle i wella mewn perthynas â'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno hawliadau grant 2009-10. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2010-11. Mae ein casgliad ar gyfer 2009-10 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:

   - Cyflwynwyd 66% o'r hawliadau grant ar ôl terfyn amser yr Awdurdod ar gyfer eu cyflwyno. Roedd nifer o'r hawliadau hyn fisoedd yn hwyr.
   - Roedd 48% o'r grantiau a ardystiwyd yn destun llythyrau amodi.
   - Ar y cyfan ni chaiff papurau gwaith eu coladu mewn ffeil archwilio ac yn aml nid oeddent yn barod wrth ddechrau archwiliadau a drefnwyd.
   - Yn ystod archwiliadau 2009/10, nid oedd gan yr Awdurdod gydgysylltydd grantiau penodedig, ac o ganlyniad, cafwyd anhawster sylweddol o ran nodi enwau cyswllt allweddol a dod o hyd i'r ddogfennaeth yr oedd ei hangen. (Mae cydgysylltydd grantiau bellach wedi'i benodi ac rydym yn cydweithio'n agos â'r unigolyn hwn i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn).
   - Cafwyd anawsterau sylweddol o ran dod o hyd i wybodaeth am gontractau ar gyfer y rhan fwyaf o'r grantiau.

4. Rydym wedi ardystio cyfanswm o 33 o hawliadau, am gyfanswm cost archwilio o £143,675

# Penawdau

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad a chefndir** | **Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith o ardystio hawliadau a ffurflenni grant yr Awdurdod ar gyfer 2009-10**<br>• Fel archwilwyr penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ardystio hawliadau grant a wnaed gan yr Awdurdod.<br>• Ar gyfer 2009-10, gwnaethom ardystio 33 o hawliadau. Rydym wedi llunio'r adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo i nodi gwelliannau pellach posibl i'r broses. | Tudalennau 7-9 |
| **Hawliadau yn dod i law yn amserol** | • Dengys ein dadansoddiad mai dim ond 33 y cant o'r hawliadau a dderbyniwyd gennym erbyn terfyn amser yr Awdurdod.<br>• Rydym yn dal i aros am yr hawliad ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Cynnal a Chadw Ffyrdd y dylai fod wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2010. | Tudalennau 7-9 |
| **Canlyniadau'r gwaith ardystio** | • Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau diamod ar gyfer 17 o hawliadau (52 y cant).<br>• Roedd angen rhoi barn amodol mewn 16 o achosion (48 y cant).<br>• Mae'r dystysgrif archwilio yn weddill ar gyfer y dau hawliad tra rydym yn aros am ragor o wybodaeth gan yr Awdurdod. Mae'n debygol y rhoddir barn amodol ar y rhain hefyd. | Tudalennau 10 – 15 |
| **Addasiadau archwilio** | • Roedd angen gwneud addasiadau i 5 o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i waith ardystio'r archwilydd. | Tudalennau 7–10 |
| **Trefniadau'r Awdurdod** | • Mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni. Nodir ein hargymhellion ar gyfer gwella ar dudalennau 11-12. | Tudalennau 16–20 |
| **Ffioedd** | • £143,675 yw ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2009-10. | Tudalennau 21 – 23 |

# Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

5. Mae'r dudalen ganlynol yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni'r Awdurdod ar gyfer 2009-10, sy'n dangos lle y gwnaed addasiadau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle y bu'n rhaid i ni amodi ein tystysgrif archwilio.

6. Mae amodi'n golygu y nodwyd materion o ran cydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellir eu datrys drwy wneud addasiad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd angen i'r corff perthnasol sy'n talu grant gael rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod i fodloni ei hun bod cyfanswm y grant a hawliwyd yn briodol. Ym mhob achos, cytunwyd ar eiriad y llythyr amodi â'r swyddog cyfrifol.

**Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2009 10**

**Gwnaethom ardystio cyfanswm o 33 o grantiau a ffurflenni:**

Roedd 14 yn ddiamod heb unrhyw addasiad

Roedd 3 yn ddiamod ond roedd angen addasu'r ffigurau terfynol rhywfaint

Roedd angen amodi ein tystysgrif archwilio ar gyfer 16 ohonynt, ac roedd angen addasu dau o'r hawliadau hyn hefyd

| | Grantiau a ffurflenni | Dyddiad derbyn disgwyliedig yr Hawliad | Daeth yr hawliad i law | Hwyr | Tystysgrif a amodwyd | Addasiad sylweddol (>£10,000) | Mân addasiad (<£10,000) | Tystysgrif ddiamod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ffurflen pensiynau athrawon | 30/06/10 | 23/06/10 | | | | (270) | |
| 2 | CAFf Ailddatblygu Llangefni | 30/06/10 | 30/06/10 | | Ie | | | |
| 3 | Dechrau'n Deg | 30/09/10 | 09/07/10 | | | | | |
| 4 | Grantiau gwella adeiladau ysgolion - prif ddyraniad | 23/07/10 | 13/09/10 | Ie | | | | |
| 5 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 21/05/10 | 14/10/10 | Ie | Ie | (16,370) | | |
| 6 | Strategaeth Anfantais Feddyliol: Adsefydlu / Anableddau dysgu | 31/08/10 | 20/09/10 | Ie | Ie | | | |
| 7 | Cronfa ddatblygu rheoli perfformiad | 30/09/10 | 30/09/10 | | Ie | | | |
| 8 | Cymorth | 30/09/10 | 30/09/10 | | Ie | | | |
| 9 | Hybu annibyniaeth a lles | 30/09/10 | 30/09/10 | | Ie | | | |
| 10 | Y Gronfa Cymunedau Diogelach | 30/09/10 | 22/10/10 | Ie | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Rhaglen gydgyfeirio ERDF Arfordir Ynys Môn | 21/10/10 | 03/11/10 | Ie | Ie | | | |
| 12 | Grant Integreiddio'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol | 30/09/10 | 22/10/10 | Ie | | | | |
| 13 | Consesiynau Teithio Am Ddim | 30/09/10 | 12/11/10 | Ie | | | | |
| 14 | Cymunedau yn Gyntaf Ward Porthladd Amlwch (craidd) | 31/07/10 | 16/11/10 | Ie | | | | |
| 15 | Cymunedau yn Gyntaf Porthyfelin | 31/07/10 | 16/11/10 | Ie | Ie | | **0** | |
| 16 | Cymunedau yn Gyntaf Ward Porthladd Amlwch (di-graidd) | 31/07/10 | 16/11/10 | Ie | | | | |
| 17 | Swyddfa Ganolog Cymunedau yn Gyntaf | 31/07/10 | 02/12/10 | Ie | Ie | | | |
| 18 | Cymhorthdal budd-dal tai a budd-dal treth gyngor | 31/05/10 | 20/12/10 | Ie | Ie | | | |
| 19 | Grant trafnidiaeth | 31/08/10 | 24/01/11 | Ie | Ie | | | |
| 20 | Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Craidd) | 31/07/10 | 27/01/11 | Ie | Ie | | | |
| 21 | Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Di-graidd) | 21/07/10 | 27/01/11 | Ie | | | | |
| 22 | Cronfa Ysgolion Gwell | 31/07/10 | 02/02/11 | Ie | Ie | | | |
| 23 | Maes Awyr Ynys Môn | 31/12/10 | 14/03/11 | Ie | | | 0 | |
| 24 | Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Canlyniadau) | 31/12/10 | 02/03/11 | Ie | | | 0 | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Cymunedau yn Gyntaf Tudur (Craidd) | 31/07/10 | 21/10/11 | Ie | Ie | | | |
| 26 | Cymunedau yn Gyntaf Amlwch (Canlyniadau) | 31/07/10 | 22/03/11 | Ie | | | | |
| 27 | Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 20/09/10 | 23/03/11 | Ie | Ie | | | |
| 28 | Cronfa weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau 2009/19 | 30/09/10 | 24/05/11 | Ie | Ie | | | |
| 29 | Llwybrau dysgu 14-19 Llinyn 1 a Llinyn 2 | 30/09/10 | 17/06/10 | | | | | |
| 30 | Gwella Adeiladau Ysgolion (dyraniad o £9m) | 23/07/10 | 07/07/10 | | | | | |
| 31 | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 30/09/10 | 27/09/10 | | | | | |
| 32 | Grantiau cydweithio | 30/09/10 | 30/09/10 | | | | | |
| 33 | Y Gronfa Fuddsoddi Leol - Cydgyfeirio | 21/01/11 | 17/01/11 | | | | | |
| | **Cyfanswm** | | | **22** | **16** | **£(16,370)** | **£(270)** | **18** |

**7.** Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol y tu ôl i'r addasiadau neu'r amodi a nodwyd ar dudalen 8.

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
|---|---|
| 1 | **Ffurflen pensiynau athrawon**<br>• Cwblhawyd y ffurflen hawlio yn anghywir, gadawyd pob cofnod yn rhan C yn wag. **Gweler argymhelliad 1** |
| 2 | **CAFf Ailddatblygu Llangefni**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Diffyg tystiolaeth bod estyniad i gontract wedi'i gymeradwyo yn unol â rheolau sefydlog yr Awdurdod.<br>• Ni chafwyd tri dyfynbris ar gyfer contract gwerth dros £3,000.<br>• Nid oedd anfoneb ar gael ar gyfer un eitem o wariant gwerth £3,864.<br>**Gweler argymhelliad 3** |
| 3 | **Ardrethi Annomestig Cenedlaethol**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Diffyg tystiolaeth bod yr hawliad yn gyson â'r cyfriflyfr cyffredinol.<br>• Ni roddwyd ystyriaeth i'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Swyddfa Brisio rhwng 16 Rhagfyr 2009 a 31 Ionawr 2010.<br>• Ni chwblhawyd cofnodion yn llinellau 3 a 4 o'r ffurflen hawlio mewn perthynas â rhyddhad trosiannol. **Gweler argymhelliad 1**<br>Diwygiwyd yr hawliad hefyd oherwydd y canlynol:<br>• Cymhwyswyd y gyfradd llog anghywir i ordaliadau.<br>• Cyfrif rhyddhad dewisol CASC ddwywaith.<br>• Roedd y papurau gwaith ategol ar gyfer cofnod Llinell 1 yn fathemategol anghywir.<br>**Gweler argymhellion 1 a 4.** |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
|---|---|
| 4 | **Strategaeth Anfantais Feddyliol: Adsefydlu / Anableddau dysgu**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Tystiolaeth annigonol i gyfiawnhau'r dull o ddosrannu costau cyflogau.<br>**Gweler argymhelliad 5** |
| 5 | **Cronfa ddatblygu rheoli perfformiad**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Tystiolaeth annigonol i gyfiawnhau'r dull o ddosrannu costau cyflogau<br>**Gweler argymhelliad 5** |
| 6 | **Cymorth**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Diffyg dull cadarn a chyson o fonitro gwariant trydydd parti.<br>**Gweler argymhelliad 6** |
| 7 | **Hybu annibyniaeth a lles**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Tystiolaeth annigonol i gyfiawnhau'r dull o ddosrannu costau cyflogau<br>**Gweler argymhelliad 5** |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
|---|---|
| 8 | **Rhaglen gydgyfeirio ERDF Arfordir Ynys Môn**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Gorddatganwyd yr is-gategori Gweinyddu £8,928.<br>• Nodwyd nad oedd dwy eitem o wariant staff gwerth cyfanswm o £67.62 wedi'u talu ar ddyddiad yr hawliad.<br>• Roedd ffioedd archwilio o £5,527 mewn perthynas â'r archwiliad o hawliad y flwyddyn flaenorol wedi'u cynnwys yn amhriodol yn y categori Costau staff.<br>O dan delerau ac amodau'r grant, nid oedd yn bosibl addasu'r hawliad ar gyfer yr eitemau hyn.<br>**Gweler argymhelliad 2** |
| 9 | **Cymunedau yn Gyntaf Porthyfelin**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Roedd un eitem o wariant o £325 yn anghymwys.<br>Addaswyd yr hawliad hefyd gan nad oedd y ffurflen wreiddiol wedi'i chwblhau'n gywir. Nid oedd unrhyw effaith ar y cyllid a hawliwyd.<br>**Gweler argymhellion 1 a 2** |
| 10 | **Swyddfa Ganolog Cymunedau yn Gyntaf**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Tystiolaeth annigonol i ategu ad-daliad o £9,004 i dalu am gost aelod o staff o adran gyllid yr Awdurdod.<br>**Gweler argymhelliad 7** |
| 11 | **Budd-dal tai a chymhorthdal budd-dal treth gyngor**<br>Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau ar ôl cwblhau'r archwiliad. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
|---|---|
| 12 | **Grant trafnidiaeth**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Nid oedd yr arian grant wedi'i hawlio'n fisol, ar sail gwariant amcangyfrifedig y mis cyfredol gan ddefnyddio System Wybodaeth Trafnidiaeth Cymru, fel sy'n ofynnol yn ôl telerau ac amodau'r arian grant.<br>**Gweler argymhelliad 8** |
| 13 | **Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Craidd)**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Dosbarthwyd taliadau arlwyo o £120 yn anghywir fel costau teithio.<br>**Gweler argymhelliad 1** |
| 14 | **Cronfa Ysgolion Gwell**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Nid oedd yr Awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth i gadarnhau ei fod wedi cytuno ar y gyfradd ddatganoledig ofynnol o 60% â'r Fforwm Cyllidebau Ysgol lleol ac wedi hysbysu Llywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol yn unol â thelerau ac amodau'r arian grant.<br>• Nid oedd yr Awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol o fonitro cynnydd, ac nid oedd rhaglenni blynyddol ysgolion ar gael at ddibenion ardystio.<br>• Nid oedd yr Awdurdod yn gallu darparu rhestr o'r contractau a adlewyrchwyd yn yr hawliad. Felly nid oeddem yn gallu cadarnhau bod y contractau a adlewyrchwyd yn yr hawliad wedi'u dyfarnu yn unol â rheolau sefydlog.<br>**Gweler argymhellion 3, 6 ac 8** |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
| --- | --- |
| 15 | **Maes Awyr Ynys Môn**<br>Addaswyd y ffurflen hawlio wreiddiol gan ei bod yn cynnwys categori gwariant ychwanegol nas caniateir. Nid oedd unrhyw effaith ar y cyllid a hawliwyd.<br>**Gweler argymhelliad 1.** |
| 16 | **Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Canlyniadau)**<br>Addaswyd y ffurflen hawlio wreiddiol am nad oedd yn gyson â'r dadansoddiad manwl o wariant. Nid oedd unrhyw effaith ar y cyllid a hawliwyd.<br>**Gweler argymhellion 1 a 4.** |
| 17 | **Cymunedau yn Gyntaf Tudur (Craidd)**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Nid oedd yr Awdurdod yn gallu darparu anfoneb ategol ar gyfer eitem o wariant o £115<br>**Gweler argymhelliad 7.** |
| 18 | **Rheoli Gwastraff Cynaliadwy**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Nid oedd yr Awdurdod yn gallu darparu rhestr o'r contractau a adlewyrchwyd yn yr hawliad. Felly nid oeddem yn gallu cadarnhau bod y contractau a adlewyrchwyd yn yr hawliad wedi'u dyfarnu yn unol â rheolau sefydlog.<br>**Gweler argymhelliad 3.** |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi |
| --- | --- |
| 19 | **Cronfa weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau**<br>Amodwyd yr hawliad oherwydd y canlynol:<br>• Cynhwyswyd eitem o wariant o £914 yn hawliad 2009/10 ond roedd yn ymwneud â 2008/09<br>• Tystiolaeth annigonol o fonitro gwariant a drosglwyddwyd i drydydd partïon.<br>**Gweler argymhellion 2 a 6.** |

# Argymhellion

8. Rydym wedi rhoi gradd risg i bob argymhelliad ac wedi cytuno ar y camau y bydd angen i reolwyr eu cymryd. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion hyn yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

| Blaenoriaeth 1 | Blaenoriaeth 2 | Blaenoriaeth 3 |
|---|---|---|
| Materion sy'n hanfodol ac yn berthnasol i'ch trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau. Rydym o'r farn y gallai'r materion hyn olygu nad ydych yn bodloni gofyniad cynllun grant neu'n lleihau (lliniaru) risg. | Materion sy'n cael effaith bwysig ar eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau, ond nad oes angen gweithredu arnynt ar unwaith. Mae'n bosibl eich bod yn dal i fodloni gofynion cynllun yn llawn neu'n rhannol neu'n lleihau (lliniaru) risg yn ddigonol ond erys y gwendid yn y system. | Materion a fyddai, pe caent eu cywiro, yn gwella eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau yn gyffredinol, ond nad ydynt yn hanfodol i'r system gyffredinol. Ar y cyfan mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud ag arfer gorau y credwn y byddent o fudd i chi petaech yn eu cyflwyno. |

| Mater | Rheswm/Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni pharatowyd yr hawliad yn gywir. | • Gwallau rhifyddeg.<br>• Gwallau trosi rhwng y dadansoddiad o'r gwariant a'r hawliad.<br>• Celloedd gwag.<br>• Ni chydymffurfiwyd â'r canllawiau ar gwblhau hawliadau.<br>• Dosbarthiad anghywir. | A1 Dylid cwblhau pob ffurflen hawlio yn llawn, yn unol â'r canllawiau cwblhau, a'u gwirio yn erbyn y ddogfennaeth ategol. | 2 | | |
| Cynhwyswyd gwariant anghymwys. | • Gweithgarwch y tu allan i'r cyfnod hawlio.<br>• Eitemau gwariant nad ydynt yn gysylltiedig â diben bwriadedig y grant. | A2 Dim ond gwariant cymwys yr aed iddo o fewn y cyfnod hawlio y dylid ei gynnwys yn yr hawliad. | 1 | | |
| Diffyg cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ar gyfer dyfarnu contractau. | • Ni chadwyd rhestr o'r contractau.<br>• Dyfarnwyd contractau heb gael tri dyfynbris/tendr. | A3 Dylid dyfarnu pob contract a gaiff ei ariannu ag arian grant yn unol â rheol sefydlog yr Awdurdod. Dylid cadw rhestr lawn o gontractau ar gyfer pob hawliad grant, ynghyd â chopïau o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â dyfarnu'r tendr. | 1 | | |

| Mater | Rheswm/Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw'r hawliad yn gyson â'r cyfriflyfr cyffredinol. | • Defnyddio ffigurau amcangyfrifedig.<br>• Gwnaed addasiadau â llaw i'r ffurflenni hawlio ond ni adlewyrchwyd hynny yn y cyfriflyfr cyffredinol. | A4 Dylid gwneud gwaith cysoni cyn pob archwiliad i gadarnhau bod y ffigurau yn y ffurflen hawlio yn cyfateb i'r cyfriflyfr cyffredinol a dylid cadw copi o'r gwaith cysoni ar ffeil. | 1 | | |
| Tystiolaeth annigonol i ategu dosrannu costau staff i'r hawliad. | • Diffyg taflenni amser staff. | A5 Dylid cwblhau a chadw taflenni amser ar gyfer yr holl gostau staff a ddosrennir ar draws nifer o hawliadau grant. | 2 | | |

| Mater | Rheswm/Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Tystiolaeth annigonol o fonitro cyllid a drosglwyddwyd i drydydd partïon. | • Nid yw trefniadau monitro ar waith neu mae'r trefniadau yn anghyson. | A6 Dylid rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau y caiff yr holl gyllid a drosglwyddir i drydydd partïon ei wario yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys y canlynol:<br>• Cytundebau Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ar waith gyda phob partner;<br>• Partneriaid yr Awdurdod i ddarparu adroddiadau monitro chwarterol;<br>• Ymweliadau achlysurol â phartneriaid a hapwirio cymhwysedd ar sail sampl;<br>• Cytuno ar dargedau a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro canlyniadau. | 1 | | |

| Mater | Rheswm/Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Dogfennaeth annigonol i ategu'r gwariant a hawliwyd. | • Anfonebau coll.<br>• Ad-daliadau mewnol heb dystiolaeth ategol/cyfiawnhad digonol | A7 Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff pob anfoneb ei ffeilio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch digonol tra hefyd yn sicrhau ei bod ar gael yn hawdd i'w harchwilio. Dylid ategu pob ad-daliad mewnol â chyfrifiadau manwl. | 1 | | |
| Diffyg cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau penodol grantiau unigol. | • Ni roddwyd sylw digonol i ofynion penodol hawliadau grant unigol. | A8 Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff telerau ac amodau'r arian grant eu hadolygu'n ofalus er mwyn nodi unrhyw ofynion ychwanegol/penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Dylid rhoi systemau a phrosesau ar waith fel y bo'n briodol er mwyn bodloni'r gofynion hyn. | 1 | | |

# Ffioedd

**9.** Roedd ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol o £115,000 i £125,000 a nodwyd yn y cynllun rheoliadol.

| **Dadansoddiad o'r ffi fesul grant/ffurflen** | **2009 10 (£)** | **2008 09 (£)** |
|---|---|---|
| Cymhorthdal Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor | 34,994 hyd yma, mae'r archwiliad yn mynd rhagddo | 33,738 |
| Cronfa Cymunedau Diogelach | 3,539 | 3,488 |
| Cronfa Ysgolion Gwell | 3,367 | 6,421 |
| Grant Gwella Adeiladau Ysgolion - Prif | 2,482 | 2,320 |
| Grant Gwella Adeiladau Ysgolion - dyraniad o £9m | 2,914 | 2,399 |
| Llwybrau Dysgu 14-19 | 3,243 | 2,746 |
| Dechrau'n Deg | 4,064 | 2,894 |
| Cymorth | 4,312 | 3,858 |
| Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamdrin Sylweddau | 3,268 | 3,140 |
| Strategaeth Anfantais Feddyliol: Adsefydlu / Anableddau dysgu | 2,025 | 3,934 |
| Grant Cydweithio | 2,239 | 2,024 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 9,160 | 8,891 |
| Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 2,102 hyd yma, mae'r archwiliad yn mynd rhagddo | 2,568 |

| | | |
|---|---|---|
| Pensiynau Athrawon | 4,133 | 3,776 |
| Cymunedau yn Gyntaf: Cronfa Ganlyniadau (2 hawliad) | 5,248 | - |
| Cymunedau yn Gyntaf: Arian Craidd (7 hawliad ar gyfer 09/10; 5 hawliad ar gyfer 08/09) | 20,508 | 10,099 |
| Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 2,005 | 1,546 |
| Cronfa Datblygu Rheoli Perfformiad | 3,477 | 3,865 |
| Cyfarpar Cymunedol | 2,338 | 2,943 |
| Hybu Annibyniaeth a Lles | 2,932 | 2,992 |
| Grant Trafnidiaeth | 3,587 | 2,251 |
| Consesiynau Teithio Am Ddim | 2,469 | 2,629 |
| Maes Awyr Môn | 2,201 | 1,052 |
| Y Gronfa Fuddsoddi Leol (cydgyfeirio) | 8,494 | 3,231 |
| Diogelu Arfordir Ynys Môn (cydgyfeirio) | 5,097 | 5,527 |
| Cam 1 CAFf ailddatblygu Llangefni | 3,477 | 3,106 |
| Diogelu arfordir Bae Trearddur | - | 3,353 |
| Draenio tir Llanfaes | - | 2,264 |
| Draenio tir ym Mill Lane Biwmares | - | 3,488 |
| Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | - | 6,283 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant gwella tref (2 hawliad) | - | 2,601 |
| Y Gronfa gyfalaf cynnal a chadw ffyrdd | - | 1,150 |
| Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Cymru | - | 2,598 |
| **Cyfanswm y ffi** | **£143,675** | **£143,175** |

